

## Pennu amcanion llesiant – Cyngor Castell-nedd Port Talbot

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3739A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru: [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion Llesiant	4
Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot	5
Sut a phryd y pennodd y Cyngor ei amcanion llesiant	5
Yr hyn a ganfuom: mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac wedi ymgysylltu'n helaeth wrth bennu ei amcanion Llesiant ond bydd angen datblygu ei drefniadau monitro ymhellach	6
Argymhellion	10
Atodiadau	
Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano	11

## Cefndir: Ein harchwiliadau o bennu amcanion Llesiant

- 1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 48 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyrff hynny bennu a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf<sup>1</sup>. Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.
- 2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae gyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant<sup>2</sup>. Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r archwiliadau hyn, hyd at ddechrau 2025<sup>3</sup>.
- 3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal<sup>4</sup>.
- 4 Gwnaethom lunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae gyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut y gallai da edrych.
- 5 Wrth ddylunio ein dull gweithredu, gwnaethom ystyried yr hyn y gallem ei ddisgwyl yn rhesymol gan gyrff cyhoeddus ar yr adeg hon. Dylai gyrff cyhoeddus nawr fod yn gyfarwydd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a cheisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi bod gyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant. Felly, mae'r archwiliadau'n cynnwys ystyried sut mae gyrff cyhoeddus yn cymhwyso eu dysgu a sut y gallant wella yn y dyfodol.

<sup>1</sup> Y saith nod llesiant cenedlaethol yw: Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru o ddiwylliant bywiog a Chymraeg ffyniannus, a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

<sup>2</sup> Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<sup>3</sup> Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau flwyddyn cyn etholiad y Senedd ac sy'n dod i ben flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad y Senedd ganlynol.

<sup>4</sup> Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot

- 6 Nod yr archwiliad hwn oedd:
- esbonio sut y gwnaeth Cyngor Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor) gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy gydol y broses o bennu ei amcanion Llesiant;
  - rhoi sicrwydd i'r graddau y cymhwysodd y Cyngor yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion Llesiant; a
  - nodi cyfleoedd i'r Cyngor ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth bennu amcanion Llesiant yn y dyfodol.
- 7 Aethom ati i ateb y cwestiwn: I ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion Llesiant newydd? Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:
- A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y Cyngor i bennu ei amcanion Llesiant wedi'u seilio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
  - A yw'r Cyngor wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion Llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
  - A yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion Llesiant?
- 8 Buom yn trafod amseriad yr archwiliad gyda'r Cyngor, ac fe wnaethom deilwra'r gwaith cyflawni i adlewyrchu ei amgylchiadau penodol.
- 9 Rydym yn casglu ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol:
- adolygu dogfennau allweddol;
  - cynnal gweithdy gyda swyddogion allweddol a oedd yn ymwneud â'r gwaith o bennu'r amcanion Llesiant;
  - Cynnal cyfarfod eglurhad terfynol ar faterion sy'n weddill gydag unigolion allweddol yn ogystal â'r uchod.
- 10 Fe wnaethom hefyd roi adborth anffurfiol i swyddogion ar brif ganfyddiadau ein gwaith cyn rhannu'r adroddiad hwn.

## Sut a phryd y pennodd y Cyngor ei amcanion Llesiant

- 11 Mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2022-2027 (y Cynllun Corfforaethol) 'Adfer Ailosod Adnewyddu' ar 1 Mawrth 2022. Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi'i strwythuro o amgylch pedwar amcan Llesiant newydd y Cyngor sef y canlynol:
- Mae pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd

- Mae pob cymuned yn ffynnu ac yn gynaliadwy  
Gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd, ein treftadaeth a'n diwylliant lleol.
  - Swyddi a sgiliau – mae pobl leol yn fedrus ac yn gallu cael mynediad i swyddi gwyrdd o ansawdd uchel
- 12 Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r pedwar amcan Llesiant hyn, mae'r Cyngor wedi sefydlu Rhaglen Alluogi sy'n canolbwyntio ar Ddatblygu Sefydliadol ar gyfer y meysydd canlynol: technoleg ddigidol, pobl, asedau, cynaliadwyedd ariannol, llywodraethu ac ymgysylltu. Cyhoeddir y Cynllun Corfforaethol a Chynllun Corfforaethol cryno ar dudalen ar wefan y Cyngor.
- 13 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys adran benodol o'r enw Datganiad Llesiant. Mae hyn, adrannau eraill y Cynllun Corfforaethol a'i Aseiad Effaith Integredig cysylltiedig, yn cwmpasu'r elfennau ar gyfer Datganiad Llesiant, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, gallai'r Cyngor gyfleu'n gliriach sut mae ei amcanion Llesiant newydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Nodau Cenedlaethol a phum ffordd o weithio.
- 14 Wrth bennu ei amcanion Llesiant newydd, mae'r Cyngor wedi cymhwyso gwersi a ddysgwyd o'r gwaith o bennu amcanion Llesiant blaenorol. Y wers allweddol a ddysgwyd oedd sicrhau bod swyddogion ac aelodau a dinasyddion yn ymgysylltu'n well ynghylch yr amcanion Llesiant.

**Yr hyn a ganfuom: mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac wedi ymgysylltu'n helaeth wrth bennu ei amcanion Llesiant ond bydd angen datblygu ei drefniadau monitro ymhellach**

## **Y broses ar gyfer pennu amcanion Llesiant**

### **Sylfaen dystiolaeth**

- 15 Defnyddiodd y Cyngor ystod eang o wybodaeth i gefnogi'r gwaith o bennu ei amcanion Llesiant. Mae Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor yn cynnwys crynodeb o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i danategu'r rhesymeg dros ddewis pob amcan Llesiant. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys disgrifio 'Pam y mae hyn yn bwysig' ac yn ymdrin â 'Beth sy'n Bwysig i Bobl'. Mae'r dystiolaeth hon hefyd wedi'i thynnu o'i phroses ymgysylltu gynhwysfawr 'Dewch i Sgwrsio'. Mae'r Cynllun Corfforaethol newydd hefyd yn cynnwys yr adran 'mega-dueddiadau' megis: digideiddio, tlodi, amddifadedd, anghydraddoldeb a chymuned.

- 16 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o ddangos tueddiadau, anghenion a risgiau sy'n dod i'r amlwg a ddefnyddiwyd i helpu i lunio ei amcanion llesiant a'r camau sydd eu hangen i gyflawni'r rhain. Dylai meddu ar ddealltwriaeth glir o'r materion hyn sicrhau mai'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant fydd yn cael yr effaith fwyaf dros y tymor byr, canolig a'r tymor hwy. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor hefyd yn cynnwys disgrifiad o sut fydd llesiant yn edrych ymhen 20 mlynedd. Bydd hyn yn helpu i bennu gweithredoedd y Cyngor i gefnogi ei amcanion llesiant mewn cyd-destun tymor hwy.
- 17 Mae angen i'r Cyngor ddangos yn gliriach sut y mae wedi defnyddio sylfaen dystiolaeth eang i gefnogi datblygiad ei amcanion llesiant. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo wella'r ffordd y mae'n casglu ac yn dadansoddi data ac yn ddiweddar mae wedi creu dwy swydd dadansoddwyr data. Mae hefyd yng nghamau cynnar defnyddio meddalwedd dadansoddi data fel Power BI. Dylai'r ddau gam gweithredu helpu i wella sut mae data'n cael ei gasglu a'i ddefnyddio i gefnogi ei broses o wneud penderfyniadau ac wrth adolygu a phennu amcanion llesiant yn y dyfodol.

## Ymgynghori a chyfranogi

- 18 Cafwyd ymgynghoriad effeithiol. Cynhaliodd y Cyngor broses ymgysylltu gynhwysfawr er mwyn datblygu ei amcanion llesiant newydd. Dechreuodd y broses hon yn 2021 gydag ymarfer ymgysylltu helaeth o'r enw 'Dewch i Sgwrsio'. Hwyluswyd agweddau ar yr ymarfer hwn, megis dadansoddi'r adborth a rhai grwpiau ffocws gan sefydliad allanol. Roedd yn cynnwys sawl grŵp ffocws, cyfweiliadau manwl â dinasyddion, ac arolwg. Derbyniodd yr arolwg 1,694 o ymatebion gan amrediad eang o grwpiau, a oedd yn cynnwys pobl ifanc a phlant. Mae'r Cyngor wedi defnyddio canlyniadau'r ymgysylltiad hwn yn effeithiol wrth lunio ei Gynllun Corfforaethol newydd a'i amcanion llesiant. Defnyddiwyd canlyniadau'r 'Dewch i Sgwrsio' hefyd i lywio Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a gafodd ddylanwad yn ei dro ar y penderfyniad y dylai amcanion llesiant y Cyngor ac amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yr un fath.
- 19 Yn ogystal â'r ymgysylltiad 'Dewch i Siarad' hwn, defnyddiodd y Cyngor waith ymgysylltu ac ymgynghori cyfredol arall i helpu i lunio ei amcanion llesiant newydd megis:
- canfyddiadau Gwaith Ieuenctid Allgymorth Canolfan Maerdy
  - canlyniadau'r Arolwg o Asesiad Effaith ar y Gymuned
  - trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaethau;
  - canlyniadau holiadur busnes CNPT;
  - canfyddiadau Adroddiad y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil.
- 20 Mae'r Cyngor wedi darparu adborth yn effeithiol ynghylch ymgysylltiad dinasyddion â'i amcanion llesiant. Yn gynnar yn 2022, cynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgysylltu

ychwanegol, pan aeth ati i weld a oedd canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu blaenorol a gynhaliwyd yn 2021 wedi'u hadlewyrchu yn ei amcanion llesiant newydd.

- 21 Cafwyd gwell ymgysylltiad mewnol. Wrth ddatblygu ei amcanion llesiant newydd, roedd y Cyngor hefyd yn awyddus i sicrhau ei fod yn ymgysylltu'n llawn â swyddogion ac Aelodau. Ymgysylltodd yn helaeth yn fewnol, gan gynnwys cynnal gweithdai manwl ar gyfer pob un o'r amcanion llesiant. Roedd y gweithdai hyn yn gyfle i herio'r data ac i ystyried y camau cyflawni dros y tymor byr, canolig a'r tymor hwy.
- 22 Roedd rhanddeiliaid allweddol yn cefnogi safbwynt allanol ar ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi gofyn yn uniongyrchol am farn sefydliadau eraill wrth ddatblygu ei Gynllun Corfforaethol newydd, gan gynnwys, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector a Chymdeithas Tai. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i sicrhau bod ei Gynllun Corfforaethol newydd yn adlewyrchu safbwyntiau rhai o'i randdeiliaid allweddol.
- 23 Roedd y Cyngor yn rhagweithiol wrth geisio her annibynnol gan gymheiriaid ar gyfer datblygu ei Gynllun Corfforaethol newydd. Ym mis Medi 2021, ymgysylltodd y Cyngor â Chymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr i gynnal asesiad cyfaill beirniadol ac annibynnol. Cynhaliwyd gweithdai gyda Chyfarwyddwyr ac Aelodau. Yn ein barn ni, roedd hyn yn her ddefnyddiol i Gyfarwyddwyr ac Aelodau. Dywedwyd wrthym fod yr allbynnau o'r gwaith hwn yn cael eu defnyddio wedyn gan y Cyngor i wella ei Gynllun Corfforaethol ymhellach.
- 24 Mae dealltwriaeth dda o'r rhan sydd gan ddinasyddion a busnesau i'w chwarae wrth helpu i ddarparu amcanion llesiant y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd wedi cydnabod yr angen i weithio gydag unigolion a busnesau i gyflawni ei amcanion llesiant. I gydnabod hyn, mae'r Cynllun Corfforaethol newydd yn cynnwys adran sy'n manylu ar yr hyn a ddisgwylir gan y Cyngor a'r hyn a ddisgwylir gan unigolion a busnesau wrth gyflawni ei uchelgais. Mae'r naratif defnyddiol hwn yn dangos ystyriaeth o'r dull gweithredu cydweithredol ac ar y cyd o gyflawni amcanion llesiant. Fodd bynnag, bydd yn bwysig fod ei Gynlluniau Adfer Gwasanaeth hefyd yn adlewyrchu'r ystyriaeth hon yn llawn.

## **Cynllunio i wella llesiant**

- 25 Mae'r Cyngor a'r BGC wedi rhannu amcanion llesiant. Mae gan hyn y potensial i ysgogi cydweithio cryfach rhwng y Cyngor a'r BGC. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor a'r BGC fod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod eglurder ynghylch lefelau priod gyfrifoldebau partneriaid y BGC a'r Cyngor wrth gyflawni'r amcanion llesiant ar y cyd.
- 26 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod mwy i'w wneud i ddeall yn llawn sut a phryd y bydd ei bartneriaid yn cefnogi'r gwaith o ddarparu ei amcanion llesiant. Yn ogystal â'r rhestr o bartneriaid sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer pob amcan llesiant, mae'r canllawiau ar gyfer Cynlluniau Adfer Gwasanaethau y Cyngor yn annog ei wasanaethau i feddwl am swyddogaeth partneriaid wrth



gyflawni. Felly bydd yn bwysig, pan fo'n berthnasol, sut a phryd y bydd yn gweithio gyda phartneriaid yn cael ei gynnwys yn ei Gynlluniau Adfer Gwasanaethau.

## **Cyflawni'r amcanion llesiant**

- 27 Mae atebolrwydd clir ar gyfer cyflawni amcanion llesiant. Mae gan bob un o'r amcanion llesiant newydd Gyfarwyddwr arweiniol sy'n gyfrifol am eu cyflawni. Fodd bynnag, o ystyried bod yr amcanion yn drawsbynciol, bydd angen i'r Cyngor ystyried sut mae'r Cyfarwyddwyr hynny'n cydlynu gweithgaredd a gwybodaeth ar draws ystod o feysydd i gefnogi cyflawniad integredig.
- 28 Mae angen i'r Cyngor integreiddio ei drefniadau corfforaethol a chynllunio gwasanaethau yn well i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant. Bydd y Rhaglen Newid Strategol a'i Gynlluniau Adfer Gwasanaethau yn fecanwaith allweddol ar gyfer cyflawni amcanion llesiant y Cyngor. Mae agweddau ar y fframwaith hwn yn gymharol newydd gyda 2023-24 yn ail flwyddyn bodolaeth y cynlluniau adfer gwasanaethau. Felly, bydd angen amser ar y prosesau hyn i ymwreiddio'n llawn yn y sefydliad. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig adolygu ei Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol Dros Dro yr haf hwn (2023). Dylai hyn ei alluogi i sicrhau bod ei Gynllun Corfforaethol, cynllunio busnes/adfer a'i drefniadau perfformiad wedi'u hintegreiddio'n llawn (gweler paragraff 30).
- 29 Dylai'r Cyngor ddatblygu dealltwriaeth gliriach o ran sut mae'n defnyddio ei adnoddau i gyflawni ei amcanion llesiant. Bydd gwneud hyn yn cryfhau'r berthynas rhwng y broses o ddyrannu adnoddau a'r broses o gyflawni ei flaenoriaethau. Mae cyllid/adnoddau a chyllidebau presennol y Cyngor yn cael eu dyrannu ar sail gwasanaethau traddodiadol. Felly, ar hyn o bryd mae'n anodd gweld yn glir sut mae ei adnoddau'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant trawsbynciol. Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) ar gyfer 2023-2028. Mae cyfle i sicrhau bod y SATC newydd yn dangos yn glir sut y bydd adnoddau'r Cyngor yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion llesiant newydd a hefyd yn nodi sut y gallai unrhyw risgiau neu arbedion ariannol yn y dyfodol effeithio ar gyflawni'r rhain.

## **Monitro'r amcanion llesiant**

- 30 Mae angen datblygu'r trefniadau ar gyfer monitro'r broses o gyflawni amcanion llesiant ymhellach. Mae gan y Cyngor Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol dros dro sy'n amlinellu'r mecanwaith allweddol ar gyfer mesur a monitro cynnydd tuag at gyflawni ei amcanion llesiant. Gwneir hyn drwy waith monitro perfformiad yn chwarterol gan y Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol (GCC), Byrddau Cabinet a'r Cabinet, a'r adolygiad hanner blwyddyn/blynyddol o'i Gynllun Corfforaethol/Amcanion Llesiant. Mae'r Cyngor wrthi'n adnewyddu ei Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol a fydd yn digwydd yn ystod haf 2023. Dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol wedi'i

adnewyddu yn gwella'r ffordd y mae'n mesur y cynnydd y mae'n ei wneud o ran cyflawni ei amcanion llesiant.

- 31 Gallai'r Cyngor gryfhau'r gyfres o ddangosyddion y mae'n eu defnyddio i fonitro cynnydd o ran ei amcanion llesiant. Mae cyfres bresennol y Cyngor o ddangosyddion perfformiad yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'i amcanion llesiant ac fe'u defnyddir i fesur ei gynnydd ac fe'u hadroddir yn rheolaidd i'r GCC, y Cabinet a Byrddau amrywiol y Cabinet. Mae'r rhain yn cynnwys set gymysg o fetrigau sy'n ceisio mesur gwelliannau mewn llesiant ac effeithiau ehangach, sy'n gadarnhaol. Er enghraifft, 'Canran y bobl sy'n fodlon â'r ardal leol fel lle i fyw ynddi' a 'chanran o'r bobl sy'n fodlon â'u gallu i gyrraedd/cael mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt'. Fodd bynnag, mae'r metrigau eraill a ddefnyddir gan y Cyngor yn fwy trafodiadol a thraddodiadol. Fel rhan o'r adolygiad o'i Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol, dylai'r Cyngor barhau i ddatblygu ei ddefnydd o fesurau a metrigau sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau gan y bydd hyn yn ei helpu i wella sut mae ei fesurau'n gwneud cynnydd o ran yr amcanion llesiant trawsbynciol.

## Argymhellion

### Arddangosyn 1: argymhellion

- A1 Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ac atebolrwydd effeithiol ar gyfer ei amcanion llesiant, dylai'r Cyngor wneud y canlynol:
- datblygu dealltwriaeth gliriach o bryd a sut y bydd partneriaid yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion llesiant;
  - sicrhau bod SATC 2023-2027 yn ystyried yn glir sut mae adnoddau'r Cyngor yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei amcanion llesiant ac yn nodi sut y gallai unrhyw risgiau neu arbedion ariannol yn y dyfodol effeithio ar gyflawni ei amcanion llesiant;
  - sicrhau wrth iddo adnewyddu ei Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol, ei fod yn chwilio am gyfleoedd i ddatblygu mwy o fetrigau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a fydd yn ei alluogi i fesur ei amcanion llesiant trawsbynciol.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i arwain ein casglu tystiolaeth. Mae hefyd yn cynnwys rhai 'dangosyddion cadarnhaol' sydd wedi'u teilwra i'r archwiliad hwn, wedi'u haddasu o'r rhai rydym wedi'u defnyddio o'r blaen i lywio ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy. Nid rhestr wirio yw'r rhestr hon, ond yn hytrach set o nodweddion darluniadol sy'n disgrifio sut y gallai da edrych.

### Arddangosyn 2: cwestiynau allweddol a'r hyn yr ydym yn chwilio amdano

**I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd?**

**Cynllunio: A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y corff i bennu ei amcanion llesiant yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?**

<p><b>A yw'r corff wedi defnyddio data a gwybodaeth arall i ddeall anghenion, risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan y corff asesiad clir a chytbwys o'r cynnydd o'i gymharu ag amcanion llesiant blaenorol a ddefnyddiwyd i lywio dealltwriaeth y corff o'r angen 'fel y mae'/tymor byr'.</li> <li>• Mae'r corff wedi pennu amcanion llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o angen, risg a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei dynnu o amrywiaeth o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis: <ul style="list-style-type: none"> <li>– Aseidiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus</li> <li>– Aseidiadau poblogaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol</li> <li>– Canlyniadau ymarferion cyfranogiad / ymgynghori lleol</li> <li>– Monitro a chwynion gwasanaethau</li> <li>– Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol</li> <li>– Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru (SoNaRR) ar gyfer Aseidiadau Cymru ac Ardaloedd</li> </ul> </li> <li>• Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gall fynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau pontio'r cenedlaethau trwy ei amcanion llesiant.</li> </ul>
<p><b>A yw'r corff wedi cynnwys eraill i ddatblygu ei amcanion llesiant?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau cyfranogiad i helpu i ddewis ei amcanion llesiant. Mae'r cyfranogiad hwnnw - boed yn sylfaenol, eilaidd neu'n gyfuniad - yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.</li> <li>• Mae cyfranogiad yn adlewyrchu arfer da a chyingor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.</li> </ul>
<p><b>A yw'r corff wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.</li> <li>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.</li> <li>• Mae dealltwriaeth ddatblygedig o sut mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar, neu'n ymwneud â'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni a chyfleoedd i weithio gyda'i gilydd.</li> </ul>

**A yw'r corff wedi cynllunio'r amcanion i sicrhau manteision tymor hwy, wedi'u cydbwyso â diwallu anghenion tymor byr?**

- Mae'r corff wedi pennu amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac sydd wedi'u cynllunio i ysgogi gweithgaredd ar draws y sefydliad.
- Mae'r amcanion wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion tymor byr a thymor hir. Pan bennir amcanion dros amserlen fer i ganolig, fe'u gosodir yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy.

**Adnoddau a chyflawni: A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?**

**A yw'r corff wedi ystyried sut y gall roi adnoddau i'r amcanion llesiant?**

- Dyrannwyd adnoddau i sicrhau y gellir cyflawni'r amcanion dros y tymor byr a'r tymor canolig, ond mae'r corff hefyd wedi ystyried adnoddau, risgiau a/neu sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy.
- Mae'r corff wedi dyrannu adnoddau i sicrhau buddion ataliol, pryd y mae'r rhain yn cael eu disgrifio yn ei amcanion llesiant.

**A yw'r corff wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion?**

- Mae'r corff yn defnyddio ei wybodaeth am amcanion/gweithgaredd partneriaid, ei berthnasoedd a'i drefniadau cydweithredol i sicrhau y gall gyflawni uchelgeisiau trawsbynciol.

**Monitro ac adolygu: A yw'r corff wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?**

**Ydy'r corff wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol?**

- Mae mesurau perfformiad wedi'u cynllunio i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol/sefydliadol ac sy'n sicrhau manteision lluosog (gan gynnwys ataliol) dros y tymor hwy.
- Mae 'edau aur' a fydd yn caniatáu i'r corff adrodd yn glir ac yn dryloyw ar gynnydd i gyflawni'r amcanion.

**A yw'r corff yn ceisio dysgu oddi wrth y ffordd y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i bennu ei amcanion llesiant a gwella'r dull yn sgil hynny?**

- Mae'r corff yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.
- Mae'r corff wedi dysgu o osod amcanion llesiant blaenorol a thrwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy cyffredinol ac mae wedi gwella'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant newydd.
- Mae gan y corff neu'n bwriadu myfyrio ar sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cylch hwn o bennu amcanion llesiant.





Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg  
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.